# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-14-06 (p.6)

### Dyddiad: Dydd Iau, 19 Hydref 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl:  Adolygiad y Dirprwy Weinidog o Orddyled yng Nghymru

#### Diben

1. Rhoi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor am y broses o weithredu'r argymhellion a amlinellwyd yn Adolygiad y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio o Orddyled yng Nghymru

#### Crynodeb / Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn ystyried y papur hwn ac yn nodi bwriad y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog i barhau i weithio ar weithredu'r argymhellion. Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i gynnig eu sylwadau ar y posibiliadau sy'n cael eu hystyried a ffyrdd o oresgyn y rhwystrau a nodwyd.

#### Y Cefndir

3. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ei Adolygiad o Orddyled ym mis Gorffennaf 2005. Roedd yr Adolygiad yn nodi'r hyn a oedd yn cael ei wneud eisoes i fynd i'r afael ?orddyled yng Nghymru a'r DU ac yn gwneud deg argymhelliad penodol ar fynd ? gwaith yn ei flaen yng Nghymru. Yn ogystal, roedd yn:

- amlinellu'r dystiolaeth o orddyled yng Nghymru;
- asesu'r effaith y mae dyled yn ei chael ar unigolion, cymunedau a'r economi ehangach: a
- nodi effaith gorddyled ar bolis? a strategaethau Llywodraeth y Cynuylliad.

4. Mae i ganfyddiadau'r Adolygiad oblygiadau ar gyfer nifer o borffolios Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU. Hefyd, roedd yr Adolygiad yn cydnabod y rhan hollbwysig y mae angen i nifer o asiantaethau allanol ei chwarae. O'r herwydd, aeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ati i ymgynghori ? chyd-Weinidogion yn y Cabinet ac ? Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ar y pryd, Don Touhig AS, ar yr argymhellion cyn eu dosbarthu i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2005. Mae swyddogion a'r cyrff a'r adrannau hynny o'r Llywodraeth sy'n allweddol o ran gweithredu'r argymhellion yn parhau i gynnal cyfarfodydd.

## Materion i'w Hystyried

5. Mae'r Adolygiad o Orddyled yn cynnwys deg argymhelliad. Tabl sy'n crynhoi'r llwyddiannau a gafwyd hyd yn hyn yw Atodiad 1 y papur Pwyllgor hwn. Mae Atodiad 2 yn yn ail-ddatgan ymateb gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnig mwy o fanylion am hynt y gwaith a wnaed ac yn cynnwys cynigion ar gyfer cymryd camau pellach.

6. Er y dylid cydnabod bod llawer o waith i'w wneud eto, llwyddwyd i weithredu rhai argymhellion, yn benodol:

- Ymdrechion i sicrhau cyfran briodol o'r Gronfa Cyngor Wyneb yn Wyneb ar Ddyled gwerth ? 45 miliwn, (7% o gyfanswm y cyllid sydd ar gael)
- Y penderfyniad i benodi'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn asiant i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn datblygu cynigion ar gyfer ariannu Canolfan Addysg Ariannol i Gymru; a
- Y gwaith a wneir yn rheolaidd gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i gryfhau elfennau llythrennedd ariannol y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac i addasu'r rhaglen ar gyfer Mathemateg..

7. Cyn hynny, argymhellodd aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Pwyllgor gadw golwg ar hynt y gwaith yn rheolaidd. Felly, bydd y Pwyllgor yn derbyn manylion diweddaraf hynt y gwaith o gyflawni'r amcanion hyn bob chwarter.

## Goblygiadau Ariannol

8. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig ? papur hwn.

## Them?Trawsbynciol

10. Mae hyrwyddo Cyfiawnder Cymdeithasol yn un o brif them?trawsbynciol y Cynulliad. Mae cynhwysiant ariannol a mynd i'r afael ?orddyled yn rhai o brif elfennau sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i'r rheiny sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd ledled Cymru.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

11. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried hynt y gwaith a wnaed hyd yma a'r cynigion ar gyfer camau i'w cymryd yn y dyfodol ac i gynnig ei sylwadau a'i argymhellion.

Edwina Hart AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Enwau cyswllt: Gareth John (5095) / Trish Fretten (3162)

## Atodiad 1

**Trosolwg o Hynt y Gwaith a Wnaed Hyd yn Hyn**

| **Argymhelliad** | **Llwyddiannau** |
|---|---|
| 1. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o gael awdurdodau lleol yng Nghymru i ychwanegu at y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CTF) y plant sydd yn eu gofal. Mae'n debyg y bydd gan y plant hyn gyfrifon llai na phlant eraill, gan fod eu rhieni'n llai tebygol o ddarparu cymorth ariannol. Dylai awdurdodau lleol, fel gwarcheidwaid y plant yn eu gofal, wneud taliadau ychwanegol o ?50 y plentyn y flwyddyn o leiaf. Gallai'r taliad ychwanegol hwn wneud gwahaniaeth mawr i gyfleoedd a diogelwch y plant pan fyddant yn gadael gofal. | ? Llywodraeth y Cynulliad yn lansio Cynllun Ad-dalu Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar 1 Medi 2006<br><br>? Yn ad-dalu'r awdurdodau lleol am daliadau a wnaed i blant yn eu gofal parhaol o hyd at ?50 y plentyn y flwyddyn<br><br>? Bydd 460 o blant yn elwa ar unwaith a bydd 200 o blant eraill yn elwa bob blwyddyn ar ?ynny. |
| 2. Mae'n rhaid rhoi hwb sylweddol i'n hymdrechion i sicrhau addysg llythrennedd ariannol mewn ysgolion. Nid oes canllawiau cwricwlwm yng Nghymru ar y pwnc hwn. Fel cynnig cyntaf, gallem fabwysiadu'n ehangach enghraifft arferion gorau rhagorol y cwrs Managing Money a ddatblygwyd ar y cyd gan Ysgol Uwchradd y Fflint, Canolfan Cyngor ar Bopeth y Fflint a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Dylid cysylltu ag ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) i drafod cynhyrchu deunyddiau cwrs sy'n seiliedig ar enghraifft y Fflint, a fyddai'n gwella'r cwrs Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae Canolfan Cyngor ar Bopeth a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn barod i weithio fel partneriaid gydag ysgolion i ddarparu a chyflwyno'r cwrs. | ? Mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'n adolygu'r cwricwlwm ar hyn o bryd ac yn bwriadu codi proffil addysg ariannol o fewn y fframwaith ABCh<br><br>? Rhoddir ystyriaeth i fabwysiadu'r cwricwlwm mathemateg mewn modd tebyg<br><br>? Mae cwricwlwm diwygiedig i'w roi ar waith ym mis Medi 2008<br><br>? Mae cynrychiolaeth Llywodraeth y Cynulliad ar Grwp Gwaith Ysgolion yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu deunyddiau addysgu a chyfleoedd hyfforddi i athrawon |

| | |
|---|---|
| | |
| 3. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried efelychu Canolfan Addysg Ariannol Gweithrediaeth yr Alban a fyddai'n edrych ar ddarpariaeth ehangach o addysg ariannol a hyfforddi mwy o gynghorwyr ar arian, gan ddod ? sefydliadau partner at ei gilydd a rhoi enghreifftiau o arferion gorau ar waith yn ogystal ag arloesedd yn y maes hwn. | ? Mae swyddogion wedi bod ar ymweliad casglu ffeithiau i Gaeredin<br><br>? Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol i weithredu fel asiant Llywodraeth y Cynulliad wrth gysylltu ?arpar bartneriaid<br><br>? Tafodaethau cychwynnol wedi’u cynnal ?146;r Grwp Addysg Ariannol Personol ynghylch gweithgarwch yng Nghymru<br><br>? Swyddogion cyfatebol yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol wedi cyflwyno cais am gyllid i ariannu’r Ganolfan yn rhannol o dan Strategaeth Genedlaethol yr Awdurdod ar gyfer Gallu Ariannol<br><br>? Swyddogion yn parhau i edrych am gyfleoedd ariannu posibl |
| 4. Dylid dosbarthu manylion cyswllt Asiantaethau Cyngor ar Arian i ddinasyddion sy'n ysgaru neu'n colli eu swydd. Dylid cael cyngor ar y ffordd orau o wneud hyn - efallai trwy sefydliadau cyfreithwyr o ran ysgaru ac o ran colli swydd trwy'r undebau llafur, CBI a FSB. | ? Llywodraeth Cynulliad Cymru, TUC Cymru a CBI Cymru yn gefnogol<br><br>? Telir mwy o sylw i'r sefydliadau hynny sydd yn y sefyllfa orau i nodi'r rhai sydd mewn angen a’u cyfeirio at y cymorth a'r cyngor sydd ar gael |

| | |
|---|---|
| 5. Dylid annog a chynorthwyo Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i ddatblygu mentrau sicrhau'r incwm mwyaf posibl a gweithgareddau sydd ? nod o gadw dyled mor isel ?hosibl yn eu cymuned. Gallai hyn gynnwys cydweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith ar fentrau lleol; sicrhau bod cynifer ? phosibl yn hawlio budd-daliadau, credydau treth a chredydau pensiwn; ad-daliad treth gyngor ac ati trwy fentrau codi ymwybyddiaeth rhagweithiol yn y gymuned; a hybu undebau credyd yn ymarferol. Nid oes rheswm pam na ddylai Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, gan weithio gyda phartneriaid fel Canolfan Cyngor ar Bopeth, noddi hyfforddiant i bobl leol fel gweithwyr cyngor ar ddyled. | ? Aeth Cynhadledd Cydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf (De Cymru) i'r afael ? hema cynhwysiant ariannol (bu'n rhaid gohirio digwyddiad yn y Gogledd)<br><br>? Dosbarthwyd yr Adolygiad o Orddyled i Gydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf yn y digwyddiad uchod (mae cynlluniau ychwanegol ar y gweill i ddosbarthu'r Adolygiad i'r Cydgysylltwyr na fuont yn bresennol yno)<br><br>? Cysylltiadau wedi'u meithrin rhwng y swyddogion sy'n gyfrifol am yr Adolygiad a Chymunedau yn Gyntaf<br><br>? Mae Canllawiau Cyffredinol Diwygiedig Cymunedau yn Gyntaf yn annog partneriaethau i ystyried y materion hyn |
| 6. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud ymdrech fawr i hyrwyddo cydweithio a phartneriaeth rhwng Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac undebau credyd. Yn y lle cyntaf, os nad oes undeb credyd lleol, dylid gofyn i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ystyried gweithredu fel cnewyllyn i ffurfio un. Os oes undeb credyd yn gweithredu'n lleol, yna dylid rhoi anogaeth gref i gydweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf, yn cynnwys ar faterion fel gweithwyr, eiddo a chyhoeddusrwydd. Dylid blaenoriaethu ceisiadau am gyllid a fyddai'n hybu'r math hwn o waith. Dylid cynnal seminar ar y cyd yn genedlaethol, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth y llyw, i ystyried y dewisiadau cydweithio rhwng undebau credyd a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. | ? Cynhadledd Cydgysylltwyr (y De) yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio agos rhwng partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac undebau credyd<br><br>? Mae Canllawiau Cyffredinol Diwygiedig Cymunedau'n Gyntaf yn annog partneriaethau i ystyried y materion hyn<br><br>? Cynhelir ymarfer i fapio'r graddau y mae Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac |

| | |
|---|---|
| | undebau credyd yn cydweithio yn hydref 2006 |
| 7. Rheoliadau Hysbysebu Credyd i Ddefnyddwyr newydd Llywodraeth y DU, addysg ariannol well a thwf cyson y mudiad undebau credyd yw'n gobaith gorau o geisio datrys y broblem o fenthyg anghyfrifol. O ran benthyca arian yn anghyfreithlon, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd ? Heddlu a swyddogion Safonau Masnach yng Nghymru, ymchwilio i ganlyniad y cynlluniau peilot a ariannwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant yn Glasgow a Birmingham, cyn gynted ag y cwblheir y cynlluniau hyn yn 2006. | ? Pasiwyd Deddf Credyd Defnyddwyr ym mis Mawrth 2006 (a chaiff yr effeithiau eu monitro’n rheolaidd<br><br>? Ar 18 Medi, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad sesiwn codi ymwybyddiaeth ar ganlyniadau cynlluniau peilot ar Fenthyca Arian yn Anghyfreithlon gyda Swyddogion Safonau Masnach Cymru ac asiantaethau allanol<br><br>? Cyn bo hir, bydd yr Adran Masnach a Diwydiant yn cyhoeddi canfyddiadau ar nifer yr achosion o fenthyca arian yn anghyfreithlon ledled y DU a gwerthusiad o’r cynlluniau peilot a gynhaliwyd yn Glasgow a Birmingham.<br><br>? Mae swyddogion yn parhau i gynnal trafodaethau ?wyddogion Safonau Masnach ynghylch cymryd camau yn y dyfodol yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| 8. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru astudio profiad Gweithrediaeth yr Alban yn fanwl o ran cydgysylltu’r cyngor ar dyled, sydd wedi cynnwys buddsoddiad ychwanegol, 120 o gynghorwyr newydd ar arian a gweithio tuag at safonau gofynnol. Mae menter arall yn yr Alban y dylem ei hastudio wedi cynnwys gwaith cyngor wedi'i dargedu gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn cynnwys unig rieni a lleiafrifoedd ethnig. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hybu lefelau buddsoddi gofynnol mewn gwasanaethau cyngor ar ddyled gan awdurdodau lleol. | ? Dyfarnwyd ?3.15m (7% o gyfanswm yr arian sydd ar gael) i Gyngor ar Bopeth Cymru o dan y Gronfa Cyngor Wyneb yn Wyneb ar Ddyled yr Adran Masnach a Diwydiant, a phenodwyd 37 o gynghorwyr ychwanegol ar ddyled yn sgil hynny<br><br>? Mae pedwar cynghorydd arall yn gweithio yng Nghymru dan elfen ?6m y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (ar gael dan Gronfa Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth y DU)<br><br>? Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gysylltu’n agos ?146;r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ac i ddylanwadu ar broses arfaethedig o weithredu ei Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol |
| 9. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cydweithio gyda chwmn? cyfleustodau i leihau'r baich ar grwpiau targed, gan ariannu hyn trwy ddulliau mwy effeithlon o dalu biliau. Gan gychwyn gyda Dwr Cymru, mae trafodaethau cychwynnol wedi dangos y gallai’r cwmni arbed tua ?20m pe bai awdurdodau lleol ledled Cymru'n gweinyddu'r broses casglu biliau (dim ond 11 o awdurdodau lleol sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd). Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hwyluso trafodaethau rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Dwr Cymru i ymchwilio i hyn. Gellid ailddefnyddio arbedion o'r cynllun hwn i fynd i'r afael ?hlodi dwr gan ganolbwyntio'n arbennig ar gynorthwyo grwpiau dan anfantais, fel teuluoedd ?hlant | ? Mae Dwr Cymru wrthi’n dyfeisio cynllun o dariffau gostyngol i’w cynnig i’r tenantiaid cyngor y mae eu biliau dwr yn cael eu casglu gan yr awdurdod lleol (gellid ystyried cynnal cynllun peilot gydag awdurdod lleol a chymdeithas dai)<br><br>? Mae Dwr Cymru wrthi’n treialu manteision rhoi cwsmeriaid ar Gynllun Dwr Uniongyrchol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn orfodol |

| | |
|---|---|
| ifanc iawn. Gellid ystyried y ffordd hon o drafod wedyn gyda darparwyr nwy a thrydan. | |
| 10. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi sefydliad addysg uwch yng Nghymru sy'n bartner i fonitro effaith polis? ar realiti gorddyled yng Nghymru. Dylai cynghorydd arbenigol a nodwyd gyflwyno adroddiad i ni 1, 3 a 5 mlynedd ar ?abwysiadu'r argymhellion hyn. | ? Mae swyddogion y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wrthi'n monitro datblygiad |

## Atodiad 2

### Argymhelliad 1

1. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o gael awdurdodau lleol yng Nghymru i ychwanegu at Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CTF) Plant sydd yn eu gofal. Mae'n debyg y bydd gan y plant hyn gyfrifon llai na phlant eraill, gan bod eu rhieni'n llai tebygol o ddarparu cymorth ariannol. Dylai awdurdodau lleol, fel gwarcheidwaid y plant sydd yn eu gofal, wneud taliadau ychwanegol o ?50 y plentyn y flwyddyn o leiaf. Gallai'r taliad ychwanegol hwn wneud gwahaniaeth mawr i gyfleoedd a diogelwch plant pan fyddant yn gadael gofal.

### Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Mae swyddogion yn trafod agweddau Plant sy'n Derbyn Gofal y Gronfa gyda Chyllid y Wlad ac Awdurdodau Lleol. Mae Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc hefyd yn ystyried y mater hwn ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i swyddogion wneud gwaith pellach i amlinellu trefniadau posibl wedi'u costio ar gyfer cyfrannu at gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y Plant sy'n Derbyn Gofal.

### Y Sefyllfa Gyfredol

3. Ym mis Medi 2006, ac ar ?mgynghori ddwywaith ag awdurdodau lleol ym mis Awst 2005 a mis Chwefror 2006 (ar fanteision sefydlu cynllun a meini prawf cymhwysedd), sefydlwyd Cynllun Grant Ad-dalu'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant gan Lywodraeth y Cynulliad. Diben y cynllun, sy'n unigryw i Gymru, yw annog awdurdodau lleol i wneud cyfraniadau blynyddol i gyfrifon CTF rhai categor? o blant y maent yn gyfrifol amdanynt.

4. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ad-dalu awdurdodau lleol am gyfrannu at gyfrifon plant sy'n gymwys hyd at uchafswm o ?50 y plentyn y flwyddyn. Gall yr awdurdodau lleol hefyd – os ydynt yn dymuno - gyfrannu mwy o'u cyllid eu hunain (swm nad yw'n fwy na therfyn blynyddol o ?1,200).

Gwneir yr ad-daliadau o fewn mis ar ? derbyn ceisiadau am grant, i'w cyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2006.

5. Rhaid fod gan blant cymwys a) gyfrif CTF presennol a b) wedi bod yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (o dan Adran 31 neu wedi cael eu lletya o dan Adran 20 o Ddeddf Plant 1989) am gyfnod o chwe mis calendar yn y cyfnod hyd at 1 Medi 2006. Amcangyfrifir y bydd tua 460 o blant yn elwa ar unwaith a 200 o blant eraill bob blwyddyn ar ?ynny.

## Cynigion

6. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

Deddfwriaeth i ganiat?i daliadau yn y dyfodol gael eu gwneud drwy Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol, wedi'u monitro o dan Fesur Perfformiad Llywodraeth Leol.

## Argymhelliad 2

7. Mae'n rhaid rhoi hwb sylweddol i'n hymdrechion i sicrhau addysg llythrennedd ariannol mewn ysgolion. Nid oes canllawiau cwricwlwm yng Nghymru ar y pwnc hwn. Fel cynnig cyntaf, gallem fabwysiadu'n ehangach enghraifft arferion gorau rhagorol y cwrs Managing Money a ddatblygwyd ar y cyd gan Ysgol Uwchradd y Fflint, Canolfan Cyngor ar Bopeth y Fflint a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Dylid cysylltu ag ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) i drafod cynhyrchu deunyddiau cwrs sy'n seiliedig ar enghraifft y Fflint, a fyddai'n gwella'r cwrs Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae Canolfan Cyngor ar Bopeth a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn barod i weithio fel partneriaid gydag ysgolion i ddarparu'r cwrs.

## Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

8. Mae Gweinidogion yn cytuno bod addysg llythrennedd ariannol mewn ysgolion yn bwysig iawn. Gofynnir i ACCAC ystyried canfyddiadau'r Adolygiad yn ei adolygiad cyfredol o gwricwlwm ysgolion ac ystyried edrych o'r newydd ar le llythrennedd ariannol fel rhan o'r Fframwaith ABCh a llunio canllawiau yn ?r angen. Gallai hefyd ystyried y posibilrwydd o gyflwyno addysg ariannol yn fwy pendant i feysydd eraill o'r cwricwlwm - Mathemateg yn arbennig.

9. Mae rhywfaint o bryder am fod yn rhy ragnodol wrth ddilyn dim ond un set o ddeunyddiau addysgu neu un cwrs, fel cwrs y Fflint. Barn gyffredinol aelodau Grwp Gwaith Ysgolion yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yw bod digon o gyrsiau addysg / deunyddiau ar gael ond bod angen rhagor o hyfforddiant a chydnabyddiaeth o sgiliau athrawon er mwyn iddynt allu darparu'r addysg yn hyderus. Awgrymir y dylid ymgorffori'r angen hwn am hyfforddiant wrth ddatblygu'r argymhelliad hwn. Croesewir y cynnig gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol eu bod yn gweithio fel partneriaid ar gyfer darparu cyrsiau mewn ysgolion.

## Y Sefyllfa Gyfredol

10. Mae’r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi ymgymryd ?hyfrifoldebau ACCAC ers hynny ac mae wrthi'n diwygio'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd, nid oes canllawiau penodol yn targedu’r maes hwn ond mae addysg llythrennedd ariannol wedi’i hystyried wrth ddrafftio fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol a rhaglen astudio ar gyfer Mathemateg. Bydd ymarferwyr yn ystyried canlyniadau’r trafodaethau hyn ddechrau 2007 a bydd y cwricwlwm diwygiedig yn cael ei roi ar waith ym mis Medi 2008. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i gynrychioli diddordebau Cymru yng Ngrwp Gwaith Ysgolion yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA), un o'r saith a sefydlwyd gan yr FSA i roi ei Strategaeth Gallu Ariannol ar waith. Mae'r grwp wedi cymryd camau breision, yn enwedig wrth ddatblygu deunyddiau addysgu a chyfleoedd hyfforddi i athrawon a fydd yn hollbwysig o ran gwella gallu’r ysgolion i ddarparu elfennau llythrennedd ariannol cwricwlwm diwygiedig. Mae'r awgrymiadau hyn wedi cael cefnogaeth cyrff fel Cyngor ar Bopeth Cymru a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth unigol.

### Cynigion

11. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

- Manteisio ar y synergedd posibl rhwng gweithgarwch undebau credyd a mentrau llythrennedd ariannol mewn ysgolion;
- Ymchwilio ar y cyd ?146;r undebau credyd i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau cynilo trwy ysgolion (mae rhai undebau credyd wedi nodi eu parodrwydd i gynnig gwasanaeth tebyg i fenter HSBC sy'n trefnu mannau casglu mewn ysgolion ac yn annog y plant hynny sy'n cymryd rhan i fod yn rhan o'r gwasanaethau casglu a gwaith cyfrifyddu elfennol);
- Datblygu mentrau llythrennedd ariannol yn y dosbarth – i'w darparu'n ddoeth a sensitif – a fyddai'n osgoi cynyddu'r stigma y mae plant o deuluoedd ag incwm isel yn ei ddioddef (mater a amlygir mewn ymarfer ymgynghori a gyflawnwyd gan y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant);
- Ymchwilio gyda Chyngor ar Bopeth Cymru a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth unigol i'r posibilrwydd o ddatblygu canolfannau cyfannol wedi'u lleoli mewn ysgolion bro newydd a hygyrch fydd yn darparu gweithdai gallu ariannol i rieni ifanc a mamau beichiog (fel yr argymhellir yn Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru ‘Dyfodol Teg i'n Plant’);
- Cefnogi'r broses barhaus o ddosbarthu adnoddau fel y pecynnau sgiliau rhifol a ddosbarthwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y Cynulliad i blant ac oedolion (anfonwyd 50,000 a 21,000 o'r pecynnau Help Your Children and Help Yourself at blant ac oedolion yn eu tro);

- Defnyddio gwaith ymchwil fel yr hyn a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac a ddatblygwyd gan Brifysgol Brunel gydag athrawon - yn cynnwys athrawon yng Nghymru - i nodi'r datblygiad proffesiynol sydd ei angen i fynd i'r afael ?aterion ariannol yn ddeheuig yn y dosbarth (‘Measuring Financial Capability: An Exploratory Study’, Personal Finance Research Centre, Mehefin 2005); a
- Sicrhau bod materion iaith yn cael eu datrys – mae adnodd y Grwp Addysg Cyllid Personol (pfeg) Delio ?yled (CD Rom a llawlyfr) yn brin o ran ei fod ar gael yn y Gymraeg.

### Argymhelliad 3

12. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried efelychu Canolfan Addysg Ariannol Gweithrediaeth yr Alban a fyddai'n ystyried ehangu'r ddarpariaeth addysg ariannol a hyfforddi mwy o gynghorwyr arian, gan ddod ?efydliadau partner at ei gilydd a rhoi enghreifftiau o arferion gorau ar waith yn ogystal ag enghreifftiau o arloesedd yn y maes hwn.

## Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

13. Mae Swyddogion yn yr Adran Addysg a'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau wedi cychwyn trafodaethau ar fanteision ystyried Canolfan Addysg Ariannol yr Alban fel model, a fydd yn cynnwys ymweliad casglu ffeithiau ? Ganolfan i ddysgu mwy am ei dulliau. Byddai model yr Alban yn arbennig o ddeniadol pe gallai Llywodraeth y Cynulliad efelychu'r ffordd mae wedi denu noddwr preifat i ariannu hanner y costau. Gallai hyn fod yn anoddach yng Nghymru gan nad ydym yn y sefyllfa ffodus o fod ?anc amlwladol mawr yng Nghymru fel y Royal Bank of Scotland, ond gallai fod cyfle i weithio gydag un o'r prif fanciau.

14. Wrth ddatblygu'r argymhelliad hwn, bydd hefyd yn bwysig parhau i weithio gyda'r FSA a gweinyddiaethau'r DU ar strategaeth gyffredinol i'r DU gyfan i gyfuno adnoddau i gynhyrchu unrhyw ddeunyddiau neu hyfforddiant gofynnol mewn ffordd mwy cost effeithiol. Mae angen parhau hefyd i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael mynediad i fwy o adnoddau gan elusennau'r DU gyfan fel pfeg, sy'n gweithio yn Lloegr yn bennaf ar hyn o bryd.

## Y Sefyllfa Gyfredol

15. Mae swyddogion yn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Adran Hyfforddiant ac Addysg wedi ymweld ?hanolfan yr Alban i drafod y dull o'i rhedeg, ei strwythur a'i chyllid gyda pherson?allweddol. Mae swyddogion wedi trafod gyda darpar bartneriaid. O ystyried y goblygiadau o ran adnoddau, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi cytuno'n ddiweddar y gallai'r FSA weithredu fel asiant Llywodraeth y Cynulliad wrth drafod gyda darpar fuddsoddwyr yn y sector preifat er mwyn ystyried y dewisiadau ar gyfer sefydlu ac ariannu'r Ganolfan. Cafodd swyddogion drafodaethau ?146;r Grwp Addysg Ariannol Bersonol (pfeg) i weld beth fyddai costau tebygol y fenter ac i ymestyn eu gweithgaredd i Gymru. Mae cais am gyllid i ariannu'r Ganolfan arfaethedig yn rhannol wedi'i gyflwyno o dan Strategaeth Genedlaethol yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ar gyfer Gallu Ariannol.

## Cynigion

16. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

Meithrin cysylltiadau rhwng darparwyr gwasanaethau fel undebau credyd, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth unigol sy'n chwarae rhan bwysig ac mae'n bosib y gellid datblygu cysylltiadau rhwng y rhain a'r Ganolfan, ar ?i sefydlu; a

Sefydlu perthynas ffurfiol gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) i ystyried materion ehangach fel darpariaeth addysg ariannol a hyfforddi cynghorwyr arian (gallai'r penderfyniad i ddod ?

hyllid Gwasanaeth Cefnogaeth Arbenigol Cymru i ben effeithio ar allu'r Comisiwn i gymryd rhan yn y modd hwn).

## Argymhelliad 4

17. Dylid dosbarthu manylion cyswllt Asiantaethau Cyngor ar Arian i ddinasyddion sy'n ysgaru neu'n colli eu swydd. Dylid cael cyngor ar y ffordd orau o wneud hyn - efallai trwy sefydliadau cyfreithwyr o ran ysgaru ac o ran colli swydd trwy'r undebau llafur, CBI a FSB.

## Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

18. Bydd swyddogion yn ymchwilio i'r ffordd fwyaf effeithiol o ddosbarthu manylion cyswllt asiantaethau cyngor ar arian i'r rhai sy'n ysgaru neu'n colli eu swyddi.

## Y Sefyllfa Gyfredol

19. Mae hyn wedi derbyn cefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ond mae diffyg eglurder o ran y cymorth y gallai awdurdodau lleol ei gynnig, ac eithrio'r cymorth trwy eu hadrannau adnoddau dynol unigol. Mae swyddogion wedi gofyn i’r asiantaethau hynny sy’n allweddol o ran gweithredu’r argymhelliad hwn yn briodol gymryd rhan, ac mae CBI a TUC Cymru wedi cytuno i wneud hynny. Bydd gwaith yn parhau i ddod o hyd i bartneriaid eraill a hefyd i’r asiantaethau cyngor y dylid cyfeirio unigolion atynt. O gofio hyn, mae swyddogion yn Uned Ymchwil a Gwybodaeh yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio’n bwriadu mapio’r cyngor ar ddyled a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghymru er mwyn nodi’r bylchau posibl yn y ddarpariaeth.

## Cynigion

20. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

- Sefydlu'r lefel o gymorth y byddai awdurdodau lleol yn ei chynnig;
- Datblygu cysylltiadau gyda Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Uniongyrchol Cymru, Cymdeithas y Gyfraith a'r Gwasanaeth Prawf i ddosbarthu manylion cyswllt yn effeithiol i'r sefydliadau annibynnol lleol hynny sy'n darparu cyngor ar arian (mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig llwybr i bob sefydliad ?od Ansawdd yng Nghymru, yn cynnwys y rhai ?hontractau dyled arbenigol a chontractau budd-daliadau lles arbenigol (0845 345 345 / www.clsdirect.org.uk);
- Datblygu mecanweithiau fel bod gweithwyr cymdeithasol, swyddogion tai, gweithwyr cymuned a gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu dosbarthu manylion cyswllt - os yw adnoddau'n caniat?hynny;
- Defnyddio canllawiau fel pecyn Information Matters y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (cyngor a hyfforddiant yn ymwneud ?ylwyr problemau'n nodi anghenion cyngor) a menter Get it Sorted (yn sicrhau bod mecanweithiau cyfeirio ar gael i unigolion y mae angen cyngor arbenigol arnynt tra bod gwiriad budd-daliadau'n cael ei gynnal i sicrhau'r incwm mwyaf posibl): a
- Datblygu dull dau gam: (1) nodi'r partneriaid sydd eu hangen i gyfeirio'r rhai sydd mewn

angen a (2) ymchwil i effeithiau digwyddiadau o'r fath ar unigolion yn enwedig o ran iechyd a thlodi ymhlith plant.

### Argymhelliad 5

21. Dylid annog Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'u cynorthwyo i ddatblygu mentrau sicrhau'r incwm mwyaf posibl a gweithgareddau sydd ? nod o gadw dyled mor isel ? phosibl yn eu cymuned. Gallai hyn gynnwys cydweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith ar fentrau lleol gan sicrhau bod pobl yn manteisio i'r eithaf ar fudd-daliadau, credydau treth a chredydau pensiwn; ad-daliad treth gyngor ac ati trwy fentrau codi ymwybyddiaeth rhagweithiol yn y gymuned; a hybu undebau credyd yn ymarferol. Nid oes rheswm pam na ddylai Partneriaethau Cymunedau’n Gyntaf, gan weithio gyda phartneriaid fel Canolfan Cyngor ar Bopeth, noddi hyfforddiant i bobl leol fel gweithwyr cyngor ar ddyled.

### Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

22. Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen o'r gwaelod i fyny a nodir blaenoriaethau'n lleol. Yn unol ?yn, ni anogir partneriaethau'n 'uniongyrchol' i ganolbwyntio ar unrhyw faes penodol. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd cymunedau am godi ymwybyddiaeth o faterion fel sicrhau bod y nifer fwyaf posibl o bobl yn hawlio budd-daliadau ac mewn ardaloedd fel Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd, er enghraifft, mae gweithgarwch o'r fath yn barhaus. Yn yr un modd, mae rhai Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn hybu cydweithio rhyngddynt eu hunain ac undebau credyd eisoes ond mae'r fenter wedi dod o'r gwaelod. Wrth ddatblygu'r argymhelliad hwn, bydd yn bwysig sicrhau y rhennir arferion da sy'n bodoli gyda Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eraill ledled Cymru.

23. Mae Gweinidogion yn cynnig ymateb i’r argymhelliad hwn drwy sicrhau bod copi o'r Adolygiad ar gael i bob ardal Cymunedau yn Gyntaf a bod sylw penodol yn cael ei roi i'r materion hynny. Yn unol ag egwyddorion allweddol eraill rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, fodd bynnag, cyfrifoldeb partneriaethau unigol fydd graddnodi ymatebion lleol yn unol ? manylion penodol yr argymhellion.

### Y Sefyllfa Gyfredol

24. Bydd Canllawiau cyffredinol newydd Cymunedau yn Gyntaf yn annog partneriaethau lleol i ystyried y materion hyn ac i gydweithio ag undebau credyd - mae cyrff lleol fel y rhain yn y sefyllfa orau ac yn ymateb yn sensitif i anghenion y gymuned leol. Bu’r Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn annerch cynhadledd o Gydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf (y De) ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 28 Medi er mwyn pwysleisio pwyigrwydd yr agenda cynhwysiant ariannol. Hefyd, manteisiodd swyddogion ar y cyfle i ddosbarthu cop? o’r Adolygiad o Orddyled i’r Cydgysylltwyr eu hunain. Bu’n rhaid gohirio digwyddiad tebyg ar gyfer Cydgysylltwyr y Gogledd. Yn ogystal, mae swyddogion wedi ymchwilio i’r trefniadau ar gyfer dosbarthu’r Adolygiad i’r rheiny nad oeddent yn bresennol yn y digwyddiad a gynhaliwyd yn y De.

### Cynigion

25. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

- Ystyried y posibilrwydd o gyflwyno'r mesurau hynny fesul cam i sicrhau'r incwm mwyaf posibl sydd eisoes wedi'u treialu ar lawr gwlad (mae Canolfan Cyngor ar Bopeth wedi egluro a darparu cyngor ar y berthynas rhwng y Credydau Treth newydd a'r Grant Mamolaeth ac mae prosiect 'Family Matters' canolfan Sir y Fflint yn cynghori teuluoedd sydd mewn perygl o golli'r grant oherwydd nad ydynt yn deall y system newydd yn iawn);
- Datblygu cysylltiadau ?hartneriaid y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sy'n cydweithio i greu cysylltiadau ymarferol gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf e.e. yng Nghonwy, yn ddiweddar, mynychwyd digwyddiadau Cymunedau yn Gyntaf gan aelodau o'r CLS yn cynnwys Canolfan Cyngor ar Bopeth, yr awdurdod lleol, Gwasanaeth Pensiynau a'r undeb credyd lleol ymhlith eraill er mwyn rhoi mynediad i cyngor a gwybodaeth yn cynnwys sicrhau'r incwm mwyaf posibl ac ymwybyddiaeth ariannol;
- Ymchwilio i'r defnydd o raglenni'r Gwasanaeth Cyfreithiol i sicrhau'r incwm mwyaf posibl y gallai partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf fanteisio arnynt (mae asiantaethau yn Sir Ddinbych yn gweithredu dan y pennawd Getting Paid Right i sicrhau'r incwm mwyaf posibl a gyda'i gilydd llwyddwyd i gael gafael ar dros ?6miliwn o fudd-daliadau heb eu hawlio yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn unig); a
- Cefnogi cynlluniau peilot i bobl ifanc mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fel Prosiect Sicrhau'r Incwm Mwyaf Posibl i Bobl Ifanc Pontypridd sy'n rhoi sefydliadau ac asiantaethau i bobl ifanc mewn cysylltiad ?arparwyr cyngor i sicrhau'r incwm mwyaf posib a chyngor ar fudd-daliadau lles yn gynnar. Yn yr un modd, mae Gwasanaeth Allgymorth i Gleientiaid Iechyd Meddwl yn ymdrin ?hyngor ar fudd-daliadau lles a sicrhau'r incwm mwyaf posib i'r cleientiaid hynny sy'n cael eu cyfeirio gan y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a MIND yn ardal Gorllewin y Fro.

## Argymhelliad 6

26. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud ymdrech fawr i hyrwyddo cydweithio a phartneriaeth rhwng Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac undebau credyd. Yn y lle cyntaf, os nad oes undeb credyd lleol, yna dylid gofyn i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ystyried gweithredu fel cnewyllyn i ffurfio un. Os oes undeb credyd yn gweithredu'n lleol, yna dylid rhoi anogaeth gref i gydweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf, yn cynnwys ar faterion fel gweithwyr, eiddo a chyhoeddusrwydd. Dylid blaenoriaethu ceisiadau am gyllid a fyddai'n hybu'r math hwn o waith. Dylid cynnal seminar ar y cyd yn genedlaethol, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth y llyw, i ystyried y dewisiadau cydweithio rhwng undebau credyd a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

## Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

27. Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen o'r gwaelod i fyny a nodir blaenoriaethau'n lleol. Yn unol ?yn, ni anogir partneriaethau'n 'uniongyrchol' i ganolbwyntio ar unrhyw faes penodol. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd cymunedau am godi ymwybyddiaeth o faterion fel sicrhau bod y nifer fwyaf posib o bobl yn derbyn budd-daliadau ac mewn ardaloedd fel Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd, er enghraifft, mae gweithgarwch o'r fath yn digwydd yn rheolaidd. Yn yr un modd, mae rhai Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn hybu cydweithio rhyngddynt eu hunain ac undebau

credyd eisoes ond mae'r fenter wedi dod o'r gwaelod. Wrth ddatblygu'r argymhelliad hwn, bydd yn bwysig sicrhau y rhennir arferion da sy'n bodoli gyda Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eraill ledled Cymru.

28. Mae Gweinidogion yn cynnig ymateb i hyn drwy sicrhau bod copi o'r Adolygiad ar gael i bob ardal Cymunedau yn Gyntaf a bod sylw penodol yn cael ei roi i'r materion hynny. Yn unol ag egwyddorion allweddol eraill rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, fodd bynnag, cyfrifoldeb partneriaethau unigol fydd graddnodi ymatebion lleol yn unol ?anylion penodol yr argymhellion.

## Y Sefyllfa Gyfredol

29. Bydd Canllawiau cyffredinol newydd Cymunedau yn Gyntaf yn annog partneriaethau lleol i ystyried y materion hyn ac i gydweithio ag undebau credyd - cyrff wedi'u diffinio'n lleol fel y rhain sydd wedi paratoi orau ac sy'n fwyaf sensitif i anghenion y gymuned leol. Bu’r Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn annerch cynhadledd o Gydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf (y De) ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 28 Medi er mwyn pwysleisio pwysigrwydd yr agenda cynhwysiant ariannol. Hefyd, manteisiodd swyddogion ar y cyfle i ddosbarthu cop? o’r Adolygiad o Orddyled i’r Cydgysylltwyr eu hunain. Bu’n rhaid gohirio digwyddiad tebyg ar gyfer Cydgysylltwyr y Gogledd. Yn ogystal, bydd ymarfer mapio gyda’r nod o weld faint o gydweithredu sydd rhwng undebau credyd unigol a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei gynnal yn yr hydref.

## Cynigion

30. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

- Undebau credyd yn rhwydweithio trwy'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a fyddai'n darparu amrywiaeth eang o gymorth a chyngor yn cynnwys mynediad i ddata a rennir ar anghenion cleientiaid, materion lleol a chyfleoedd cyfeirio a chyhoeddusrwydd; a
- Mynd ati i roi cynlluniau adfer dyled ar waith gam wrth gam fel prosiect DRAMA (Debt Redemption and Money Advice) ym meysydd glo Cymru (ym mis Ebrill 2003, rhoddodd Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ?115,000 i Ganolfan Cydweithredol Cymru i oruchwylio cynllun peilot tair blynedd ar gyfer partneriaeth Cronfa Gwarant Benthyciad rhwng undebau credyd ym meysydd glo Cymru a darparwyr gwasanaethau cyngor arian am ddim yn yr ardaloedd hynny). Mae'r cynllun yn galluogi undebau credyd i ad-dalu benthyciadau llog uchel neu dalu biliau mewn argyfwng a chynnig benthyciadau gyda chyfraddau llog is. Anogir benthycwyr i gael cyngor cyllidebu ac arian gan gynghorwyr arian arbenigol cyn cael benthyciad.

## Argymhelliad 7

31. Rheoliadau Hysbysebu Credyd i Ddefnyddwyr newydd Llywodraeth y DU, addysg ariannol well a thwf cyson y mudiad undebau credyd yw'n gobaith gorau o geisio datrys y broblem o fenthyca anghyfrifol. O ran benthyca arian yn anghyfreithlon, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio, ynghyd ? Heddlu a swyddogion Safonau Masnach yng Nghymru, ymchwilio i ganlyniad y cynlluniau peilot a ariannwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant yn Glasgow a Birmingham, cyn gynted ag y

cwblheir y cynlluniau hyn yn 2006.

## Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

32. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n diwygio materion credyd i ddefnyddwyr, a hynny'n drylwyr, fel y nodir ym Mhapur Gwyn Credyd i Ddefnyddwyr, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2003. Mae'n cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli'r farchnad credyd i ddefnyddwyr ac yn amlinellu dull Llywodraeth y DU o fynd i'r afael ? gorddyled. Yn amodol ar ganlyniad yr Etholiad Cyffredinol ac Araith y Frenhines, bydd y Mesur Credyd i Ddefnyddwyr yn cael ei ailgyflwyno yn sesiwn nesaf y senedd. O ran benthyg arian yn anghyfreithlon, mae swyddogion o Swyddfa Cymru a Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Adran Masnach a Diwydiant i ystyried datblygu prosiect ymchwil i hyd a lled benthyca arian yn anghyfreithlon yn y DU.

## Y Sefyllfa Gyfredol

33. Derbyniodd y Mesur Credyd i Ddefnyddwyr (2006) Gydsyniad Breninol ym mis Mawrth. Yn ei hanfod, mae'r Ddeddf yn diweddaru'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ymwneud ?hredyd i ddefnyddwyr gyfredol er mwyn rhoi mwy o hawliau i ddefnyddwyr, grymuso defnyddwyr a chyflwyno arferion datrys anghydfod mwy effeithiol a gwella'r broses o reoleiddio busnesau credyd i ddefnyddwyr. Mae agweddau allweddol yn cynnwys disodli'r prawf 'credyd gormodol' cyfredol gyda phrawf sy'n seiliedig ar y syniad o 'annhegwch', gan ehangu awdurdodaeth yr Ombwdsmon Ariannol i gynnwys pawb ?hrwydded credyd i ddefnyddwyr, cryfhau'r drefn drwyddedu i alluogi'r OFT i gymryd camau mwy effeithiol yn erbyn masnachwyr anghyfreithlon ac arferion annerbyniol a sicrhau bod gwybodaeth eglur ar gael i'r defnyddiwr yn ystod cyfnod y cytundeb. Mae'r broses o'i gweithredu yn mynd rhagddo a bydd swyddogion yn parhau i fonitro hynt y gwaith.

34. O ran benthyg arian yn anghyfreithlon, bu cymheiriaid yn yr Adran Safonau Masnach y mae swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos ?hw, yn ymweld ? prosiect peilot Benthyg Arian yn Anghyfreithlon yn Birmingham. Bu'r t?a oedd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun peilot yn Birmingham yn ymweld ?lywodraeth y Cynulliad ar 18 Medi er mwyn trafod y canfyddiadau ? wyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac ag asiantaethau allanol ac er mwyn lledaenu arferion da ymhlith swyddogion Safonau Masnach Cymru. Rydym hefyd wedi cael ein hysbysu bod yr Adran Masnach a Diwydiant wrthi'n gwneud gwaith ymchwil i weld pa mor gyffredin yw benthyca arian yn anghyfreithlon a dylai fod o gymorth i ddarganfod i ba raddau ac ym mha ardaloedd o Gymru y mae'n digwydd. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod y mis (mis Hydref 2006) ac mae'r Adran Masnach a Diwydiant hefyd wedi comisiynu gwerthusiad o'r prosiect a fydd, gobeithio, yn cyflwyno adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn. Mae swyddogion yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi cyn gweithredu ymhellach.

## Cynigion

35. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

- Cynnal gwerthusiad penodol i Gymru a mapio usuriaeth os yw'r adroddiad ar y cynlluniau

peilot yn methu ag ystyried y sefyllfa yng Nghymru (mae'r Adran Safonau Masnach hefyd yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad ystyried neilltuo adnoddau i gynnal cynlluniau peilot tebyg yng Nghymru).

## Argymhelliad 8

36. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru astudio profiad Gweithrediaeth yr Alban yn fanwl o ran cydgysylltu cyngor ar ddyled, sydd wedi cynnwys buddsoddiad ychwanegol, 120 o gynghorwyr arian newydd a gweithio tuag at safonau gofynnol. Mae menter arall yn yr Alban y dylem ei hastudio wedi cynnwys gwaith cyngor wedi'i dargedu gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn cynnwys unig rieni a lleiafrifoedd ethnig. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hybu lefelau buddsoddi gofynnol mewn gwasanaethau cyngor ar ddyled gan awdurdodau lleol.

## Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

37. Mae swyddogion yn trafod cyhoeddiad Trysorlys Ei Mawrhydi o Gronfa Cynhwysiant Ariannol gwerth ?120m gyda'r Adran Masnach a Diwydiant. Er nad oes manylion ar gael eto, cafwyd ar ddeall y bydd adnoddau'n cael eu dyrannu (yng Nghymru a Lloegr ar wah? ar gyfer cyngor wyneb yn wyneb ar ddyled yn benodol mewn ardaloedd sydd wedi'u hallg?n ariannol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn trafod ? Adran Masnach a Diwydiant i sicrhau bod gan Gymru gynrychiolaeth dda yn y trefniadau a sefydlwyd i weinyddu'r adnoddau newydd. Derbynnir yr angen i ddysgu o fentrau cyngor dyledion Gweithrediaeth yr Alban a'r angen i weithio gyda CLlLC i hybu lefelau gofynnol o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cyngor dyledion.

## Y Sefyllfa Gyfredol

38. O Gronfa Cynhwysiant Ariannol ?120m Llywodraeth y DU, darparwyd ?45m ar gyfer Cronfa Cyngor Dyledion Wyneb yn Wyneb yr Adran Masnach a Diwydiant ac mae swyddogion wedi trafod gyda'u cymheiriaid yn yr Adran Masnach a Diwydiant i sicrhau y rhoddir cyfran gywir o'r arian hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio at Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i fynegi ei phryderon a chadarnhawyd ers hynny y rhoddwyd ?3.15m i Gyngor ar Bopeth Cymru i sicrhau bod 37 o gynghorwyr ychwanegol ar gael i weithio ledled Cymru. Mae dau gam proses recriwtio wedi cychwyn ac mae swyddi wedi'u hysbysebu ar gyfer Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Cwm Cynon, Abertawe, Tor-faen a Wrecsam ym mis Mehefin 2006: roedd hysbysebion ar gyfer wyth swydd arall y mis hwn ar gyfer Blaenau Gwent, Cerredigion, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Benfro, Pontypridd, Bro Morgannwg ac Ynys M?Bydd gweddill y swyddi (gan gynnwys dwy wedi'i lleoli yn Shelter Caerdydd a Wrecsam) yn cael eu hysbysebu ym mis Ionawr 2007.

Mae Gweithrediaeth yr Alban wedi buddsoddi'n helaeth yn ei rhwydwaith cyngor ar ddyled gyda chronfa gwerth ?2 filiwn i ariannu prosiectau sy'n datblygu gwasanaethau cyngor ar arian i grwpiau bregus penodol, ?3 miliwn o fis Ebrill 2002 i benodi 75 o gynghorwyr rheng-flaen ychwanegol

cyfwerth ag amser llawn a chynllun Trefnu Dyledion gwerth ?2 filiwn. Dylai polisi Llywodraeth y Cynulliad ar wasanaethau cyngor gydnabod goblygiadau ariannol buddsoddiad o’r fath a’i roi yng nghyd-destun bwriad y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i ddatblygu system cymorth cyfreithiol sifil sy’n fwy gydgysylltiedig /cost effeithiol ac yn canolbwyntio ar bobl sydd ?146;r angen mwyaf (mae’r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn un o’r cyrff ariannu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth mwyaf yng Nghymru, gan fuddsoddi tua ?1.35 milwin y flwyddyn ar fentrau cyngor ar ddyled). Fodd bynnag, mae swyddogion yn Uned Ymchwil a Gwybodaeth yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn bwriadu mapio’r cyngor a ddarperir ar ddyled er mwyn nodi’r bylchau posibl yn y ddarpariaeth.

## Cynigion

Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

- Sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddylanwadu ar y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wrth weithredu’r Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol a’i fwriad i sefydlu Canolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol a Rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol; a
- Dysgu gan fodelau fel Prosiect Cynnwys y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sydd ?146;r nod o gynorthwyo pobl anabl, unigolion du ac unigolion o leiafrifoedd ethnig, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol i gael mynediad gwell i wasanaethau cyngor a gwybodaeth yng Ngwynedd ac Ynys M?Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o'r rhwystrau a wynebir gan unigolion a grwpiau o'r fath.

## Argymhelliad 9

41. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cydweithio gyda chwmn? cyfleustodau i leihau'r baich ar grwpiau targed, gan ariannu hyn trwy ddulliau mwy effeithlon o dalu biliau. Gan gychwyn gyda Dwr Cymru, mae trafodaethau cychwynnol wedi dangos y gallai’r cwmni arbed tua ?20m pe bai awdurdodau lleol ledled Cymru yn gweinyddu'r broses casglu biliau (dim ond 11 o awdurdodau lleol sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd). Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hwyluso trafodaethau rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Dwr Cymru i ymchwilio i hyn. Gellid ailddefnyddio arbedion o'r cynllun hwn i fynd i'r afael ?hlodi dwr gan ganolbwyntio'n arbennig ar gynorthwyo grwpiau dan anfantais, fel teuluoedd ?hlant ifanc iawn. Gellid ystyried y ffordd hon o drafod wedyn gyda darparwyr nwy a thrydan.

## Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

42. Bydd Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn cyfarfod ?LlLC a chynrychiolwyr y diwydiant dwr a'r sector dyledion ar 8 Mehefin 2005 gyda'r nod o annog mwy o awdurdodau lleol i gasglu costau dwr ar ran Dwr Cymru. Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i fynd i'r afael ?hlodi dwr ac yn croesawu'r cyfle i ailgylchu arbedion i gynorthwyo grwpiau dan anfantais, fel teuluoedd gyda phlant ifanc iawn.

## Y Sefyllfa Gyfredol

43. Mae swyddogion y Cynulliad wedi parhau i gydweithio ?wr Cymru ar sut y gallai'r cwmni annog mwy o awdurdodau lleol yng Nghymru i arwyddo cytundebau i gasglu taliadau dwr gyda rhenti. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gydag OFWAT (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dwr) a'r Cyngor Defnyddwyr Dwr, dywedodd y cwmni ei fod yn y broses o ddatblygu tariff gostyngol a ellid ei gynnig i denantiaid cyngor sy'n talu eu biliau dwr drwy'r dull hwn. Gellid ystyried cynnal cynllun peilot i dreialu trefniadau casglu o'r fath gydag awdurdod lleol a chymdeithas dai. Ar hyn o bryd, mae Dwr Cymru wrthi'n llunio cynnig i bwysleisio'r manteision a bydd yn ei anfon at OFWAT ym mis Tachwedd er mwyn derbyn sylwadau arno.

**Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cadw mewn cysylltiad agos ?/h4>**

**Dwr Cymru o ran y cynigion mae'n eu cyflwyno ar gyfer newid prisiau yn gysylltiedig ? cwsmeriaid hynny sy'n talu am eu dwr trwy Gynllun Dwr Uniongyrchol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfarfu'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ? Chadeirydd a Phrif Weithredwr Dros Dro OFWAT ar 26 Ebrill 2006 i drafod penderfyniad OFWAT i wrthod cynnwys y tariff gostyngol yng Nghynllun Taliadau'r cwmni ar gyfer 2006-07.**

**Deallir bod OFWAT wedi gwrthod y gostyngiad o ?20 a gynigiwyd gan Dwr Cymru i gwsmeriaid Dwr Uniongyrchol, gan nodi'r gofyniad i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol beidio ? dangos ffafriaeth i rai dosbarthiadau o gwsmeriaid. Mae o'r farn bod cynnig Dwr Cymru yn gwahaniaethu gan y byddai'r holl arian sy'n cael ei arbed yn cael ei lwytho ar un dosbarth penodol o gwsmeriaid. Mae James Plaskitt AS, Is-ysgrifennydd Seneddol yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cefnogi penderfyniad OFWAT i wrthod y cynnig ac mae'n amharod i ystyried Dwr Uniongyrchol fel dull talu / casglu amgen. Yn hytrach, mae'n teimlo mai dim ond ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau ac sydd ar ei h?i gyda'u taliadau y dylid defnyddio'r dull talu hwn.**

**Bellach, mae cynllun yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei gwneud yn bosibl i orfodi cwsmeriaid i gael eu cynnwys ar gynllun Dwr Uniongyrchol ac o'r herwydd, mae OFWAT o'r farn nad oes angen cynnig tariff gostyngol. Ar hyn o bryd, mae Dwr Cymru yn treialu manteision gorfodi'r cynllun. Hefyd, mae OFWAT wedi cytuno i roi ystyriaeth lawn i gynigion ar gyfer cynllun gostyngiad newydd Dwr Cymru pe bai'n cael ei gyflwyno yn y cylch cynllun codi taliadau nesaf (2007-08).**

**Cynigion**

**44. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:**

- **Annog Dwr Cymru i ystyried ymhellach gynnig gostyngiad posibl i denantiaid awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n talu eu biliau dwr gyda rhent y cyngor (efallai y byddai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad hefyd am drafod ? hymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y pryderon am ba mor ymarferol yw dull cyfunol neu Gymru gyfan: nodwyd y dylid gwneud penderfyniadau o'r fath yn**

lleol a bod pryder am y cynnydd disgwyliedig o 20% yn y taliadau dwr;

- Monitro holiaduron cwsmeriaid y Cyngor Defnyddwyr Dwr ar godi prisiau teg; a

- Cefnogi safbwynt y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol bod biliau a gohebiaeth yn darparu manylion cysylltiadau ar gyfer cyngor ar arian pe bai pobl yn cael anhawster talu eu biliau neu ar eu h?i gyda'u taliadau (mae'r Comisiwn wedi dod i gytundeb gyda Dwr Cymru eisoes fel bod Dwr Cymru yn cyfeirio cleientiaid sydd ?hroblemau o ran talu eu biliau at y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol).

Argymhelliad 10:

45. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi sefydliad addysg uwch yng Nghymru sy'n bartner i fonitro effaith polis? ar realiti gorddyled yng Nghymru. Dylai cynghorydd arbenigol a nodwyd gyflwyno adroddiad i ni 1, 3 a 5 mlynedd ar ? abwysiadu'r argymhellion hyn.

Ymateb Gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru

46. Mae Gweinidogion yn croesawu'r pwyslais ar werthuso fel yr awgrymwyd yn yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, mae Gweinidogion yn parhau i fod yn argyhoeddedig mai nodi un unigolyn mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru fyddai'r ffordd orau o wneud hyn. Mae angen i'r cyfnodau amser a awgrymwyd a chanolbwynt y broses fonitro fod yn hyblyg ac yn destun ystyriaeth barhaus.

47. Yn ogystal, mae ynysu effeithiau polisi yng Nghymru ar nifer yr achosion a lefelau dyled (gormodol) yn debygol o fod yn anodd o ystyried y dylanwadau niferus sy'n cyfrannu at y broblem, ac nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw reolaeth dros y mwyafrif ohonynt. Mewn unrhyw Gynllun Gweithredu a ddatblygir i roi argymhellion yr Adolygiad ar waith, awgrymir y bydd angen 'mapio' holl weithgarwch Llywodraeth y Cynulliad. Dylid rhoi trefniadau monitro priodol ar waith law yn llaw ag unrhyw Gynllun Gweithredu.

Y Sefyllfa Gyfredol

48. Mae swyddogion wrthi'n monitro hynt yr holl waith a wnaed o ran pob un o'r argymhellion.

Cynigion:

49. Gallai camau gweithredu yn y dyfodol gynnwys:

- Ymarfer tendro (bydd swyddogion a'r sefydliad a ddewisir i gynnal y gwerthusiad yn trafod y mesurau i'w rhoi ar waith).